

Pecyn Gweithgareddau  
Ysgol Gymraeg  
Casnewydd  
Activity Pack



Blwyddyn 6 Year 6

Wythnos/ Week 1

29.6.20

## CYFARWYDDIADAU DYSGU ADREF/YSGOL.

Yn y pecyn yma mae'r adnoddau i gyd sydd angen arnoch chi i gwblhau'r tasgau yn ystod yr wythnos.

### OS YDY EICH PLENTYN YN DYCHWELYD I'R YSGOL

Os ydy eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol **NID**

**OES** angen iddynt gwblhau'r tasgau sydd wedi uwcholeuo mewn **MELYN**, dyma'r tasgau y byddwn yn cwblhau yn yr ysgol. Ar ben pob tasg yn y pecyn mi fydd yn nodi os ydy'r weithgaredd yn cael ei gwblhau yn yr ysgol neu adref.

Mi fydd gweddill y pecyn yn cael eu gwblhau adref.

### OS NAD YW EICH PLENTYN YN DYCHWELYD I'R YSGOL

Os **NAD** yw eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol mi fydd y tasgau yma i gyd yn cael eu gwblhau adref. Mi fydd yna gyflwyniad fideo i'r tasgau mewn **MELYN** ar gael ar ein sianel You Tube ysgol. Mae'r linicau i'r fideos ar y dudalen canlynol.

## INSTRUCTIONS TO HOME/SCHOOL LEARNING

In this pack you have all the resources that you need to complete the tasks for the week.

### IF YOUR CHILLD IS RETURNING TO SCHOOL:

If your child is returning to school they **DO NOT** need to complete any tasks that are highlighted on the grid in **YELLOW**, these are the tasks that we will be completing in school. At the top of each task in the work pack it will also note if it is a school task or a task to be completed at home.

The rest of the tasks are to be completed at home.

### IF YOUR CHILD IS NOT RETURNING TO SCHOOL:

If your child is **NOT** returning to school, all tasks should be completed at home. Video introductions of the tasks highlighted in **YELLOW** will be available on the school You Tube channel. The links to the videos are on the following page.

# Sianel You Tube /You Tube channel

Linciau i'r tasgiau sydd wedi uwcholeuo yn felyn:

*Links to tasks highlighted in yellow.*

Tasg Cymraeg 1/ Welsh task 1

<https://youtu.be/iFAvBQjdzg>

Tasg Lles 1/ Wellbeing task 1

<https://youtu.be/SD1O7HjjAYo>

Tasg Lles 2/ Wellbeing task 2

<https://youtu.be/OPimysfQeE0>

Fideos ychwanegol: Bydd rhain yn helpu gyda'r tasgau adre. Additional videos: These will help with the following tasks at home.

Tasg Cymraeg 2/ Welsh task 2

<https://youtu.be/y6dzYKTcHfE>

Tasg 2 Arloesi/ Innovation task 2

<https://youtu.be/H7Zaub5Hp-k>

# Grid 29. 6. 20 - Blwyddyn 6

LLYTHRENNEDD / LITERACY	RHIFEDD / NUMERACY	ARLOESI / INNOVATION	IECHYD A LLES / HEALTH AND WELL-BEING
<p><u>Tasg Cymraeg yn ysgol / Welsh Task in School.</u> Gwylwch y clip fideo/ Watch the video clip <a href="https://www.literacysshed.com/amara.html">https://www.literacysshed.com/amara.html</a>. Wedyn gwylwch y cyflwyniad athro ar YouTube. Then watch the teacher's presentation on YouTube a chwblhewch / and complete <b>TASG CYMRAEG 1 / WELSH TASK 1</b> – Anelwch at y sêr/ Reach for the stars</p>	<p><u>Tasg Mathemateg 1 / Mathematics Task 1</u> Dilynwch y cyfarwyddiadau a defnyddiwch y dull deiamwnt i luosi a rhannu gyda 4. Follow the instructions and use the diamond method to multiply and divide by 4.</p>	<p><u>TASG ARLOESI 1 / INNOVATION TASK 1</u> <u>Bioamrywiaeth / Biodiversity</u> Cwblhewch Dasg Arloesi 1 – Ymchwilio i gynefin p enodol a chasglwch y wybodaeth ar y grid. Complete <b>INNOVATION TASK 1</b> – Research into a particular habitat and complete the information grid.</p>	<p><u>TASG LLES 1 / WELLBEING TASK 1</u> <a href="https://www.youtube.com/watch?v=2PnnFrPaRgY">https://www.youtube.com/watch?v=2PnnFrPaRgY</a> A fedrwch chi greu cardiau fflach sy'n dangos, cwtsch, neges a pump uchel? Gallech ddangos y cardiau l'ch ffrindiau ar yr iard! Can you make flash cards that show hugs, messages and a high fives? You can show these to your friends on the yard.</p>
<p><u>Tasg Darllen a Deall / Reading Comprehension Task</u> Darllenwch y darn darllen a chwblhewch <b>TASG 2 CYMRAEG</b> – Mae 3 opsiwn ar gyfer y darn darllen. Dewisiwch yr un sydd yn addas ar eich cyfer. Cofiwch l herio eich hun. Cwblhewch y dasg 3-2-1. Read the extract and complete <b>TASK 2 WELSH</b>. There are three extracts. Choose the one most appropriate to you. Remember to challenge yourself. Complete the 3-2-1 task.</p>	<p><u>Tasg Mathemateg 2 / Mathematics Task 2</u> <u>Lluosi a rhannu gyda 10, a 100</u> Dilynwch y pwyntpwr ac yna atebwch y cwestiynau. Dewisiwch yr rhai sydd yn addas ar eich cyfer. Cofiwch herio eich hun. <u>Multiply and divide by 100 and 100</u> Follow the PowerPoint and answer the questions. Choose the one most appropriate to you. Remember to challenge yourself.</p>	<p><u>TASG ARLOESI 2 / INNOVATION TASK 2</u> <u>Bioamrywiaeth / Biodiversity</u> Gwylwch y cyflwyniad i- movie (linc). Watch the i-movie introduction. Cwblhewch <b>DASG ARLOESI 2</b> :- Biome Bio dome Coedwig. Complete <b>INNOVATION TASK 2</b> – Biome.</p>	<p><u>TASG LLES 2 / WELLBEING TASK 2</u> Trafodwch y ddau gwestiwn yma a nodwch eich barn mewn swigod meddwl. Beth gweithiodd yn dda i chi yn y ty? Beth oeddech chi'n gweld yn heriol yn ystod yr adeg? What worked well for you at home? What didn't work well during the time you were at home? Discuss the above questions and note your opinion in thinking bubbles.</p>
<p>Darllen- Gwrando ar stori gan athro a chwblhau <b>TASG CYMRAEG 3 – Clawr llyfr.</b> Reading – Listening to a Welsh story read by the teacher and complete <b>TASK CYMRAEG 3 – Book Cover</b>  <b>Blwyddyn 5 &amp; 6:- Mr Abracadabra Jones</b></p>	<p><u>Cwis Mathemateg- lluosu a rhannu gyda 10 a 100 / Mathematics Quiz- multiply and divide by 10 &amp; 100</u> <b>O dan Assignments/ under Assignments</b> Cwis Lluosi a rhannu gyda 10 a 100- <b>Ar fy ffordd</b> Cwis Lluosi a rhannu gyda 10 a 100- <b>Bron yna</b> Cwis Lluosi a rhannu gyda 10 a 100- <b>Barod am her</b></p>	<p><u>TASG ARLOESI 3 / INNOVATION TASK 3</u> Dilynwch y cyfarwyddiadau <b>TASG ARLOESI 3</b> i ddarlunio blodau gan ddilyn steil artist. Follow the instructions for <b>INNOVATION TASK 3</b> and sketch flowers following the style of one of the artists.</p>	<p><u>Tasg Lles 3 E-ddiogelwch cydbwysu amser sgrin / Task Wellbeing 3 E-safety balancing screen time</u> Ymchwiliwch i gydbwysu amser sgrin o'r dolenni a roddir yn Tasg Lles 3. Yna, cwblhewch y ddau weithgaredd i'ch helpu i adnabod yr arwyddion a dod o hyd i gydbwysedd. Research balancing screen time from the links given in <b>Task Wellbeing 3</b>. Then, complete the two activities to help you spot the signs and find a balance.</p>

Tasg 1 Cymraeg- Anelwch at y sêr (yn yr ysgol)

Welsh Task 1- Reach for the stars (we will be completing in school)

Dyweddodd Desmond Tutu "Hope is Being Able To See That There Is Light, Despite All Of The Darkness".

Gwyliwch y clip o Tamara <https://www.literacyshed.com/tamara.html>. ac yna gwyliwch gyflwyniad eich athro. A fedrwch chi greu dyfyniadau ybrydoledig ar gyfer Tamara fel ei bod hi'n gallu gwireddi ei breuddwyd?

Watch the clip of Tamara <https://www.literacyshed.com/tamara.html>. and watch your teacher's introduction. Can you create inspirational quotes (in Welsh) like the above for Tamara in order to help her fulfil her dream?



## TASG CYMRAEG 2 (Adre) - WELSH TASK 2 (At home)



Dewiswch y darn darllen bydd yn rhoi her addas i chi.  
Darllenwch y wybodaeth ac wedyn cwblhewch y dasg 3-2-1.  
Choose the reading extract that gives you the appropriate level  
of challenge. Read the information and complete the 3-2-1  
task.

**3** ffaith diddorol a ddysgoch / interesting facts you learnt


- \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_
- \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_
- \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

**2** cwestiwn sydd gennych chi / questions that you have

- \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_
- \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

**1** peth oedd wedi eich synnu / thing that surprised you.

- \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_



# Siarcod




Barod  
am  
her

Oeddech chi'n gwybod mae yna dros 500 gwahanol fath o siarc, yn cynnwys y siarc mawr gwyn, siarc pen northwyl, siarc glas, siarc teigr, siarc tarw a siarc mako? Mae gan siarcod 5 i 7 o **dagellau (gills)** ar ochr y pen iw helpu i anadlu.

## Ble mae siarcod yn byw?

Mae siarcod yn byw ym mhob cyfandir yn y byd. Nid yw y mwyafrif o siarcod yn byw mewn **dŵr ffres** ond mae rhai fel siarc yr afon a'r siarc tarw yn byw mewn cefnforoedd ac mewn **dŵr ffres**.



## FFEITHIAU DIDDOROL

- o Gelwir grŵp fawr o siarcod yn **haig** neu ysgol o siarcod (**shoal**).
- o Nid oes gan siarcod unrhyw esgyrn yn eu cyrff. Mae ganddynt sgerbwd o gartilag sef yr un defnydd cryf a hyblyg sydd o fewn clustiau a thrwynau pobl.
- o un o'r siarcod lleiaf yw y **siarc carrach llysern (dwarf lantern shark)**. Mae'r siarc tua 17cm o hyd.
- o Y pysgodyn fwyaf yn y byd yw y **siarc morlo (whale shark)** sydd yn gallu mesur i fyny at 14m o hyd.

## Beth mae siarcod yn ei fwyta?

Er bod rhai siarcod yn gallu bod yn beryglus dim ond tua 12 math o siarc sydd erioed wedi ymosod ar bobl. Fel arfer pobl sydd yn beryglus i siarcod achos maent yn hela siarcod am eu cig, organau a chroen. Mae gorbysgota siarcod yn golygu bod y siarc mawr gwyn nawr yn anifail prin.

Mae beth mae siarcod yn bwyta yn ddibynnol ar pa fath o siarc ydynt a ble maent yn byw. Mae y rhan fwyaf o siarcod yn **cigysyddion (carnivores)** ac felly yn hoffi bwyta pysgod a siarcod eraill. Mae rhai siarcod mawr yn bwyta dolffiniaid a **morloi bach (small whales)**. Mae siarcod bach yn bwyta **molysgiaid (molluscs) cregyn y mor (clams), crancod (crabs), môr-lewys (squid) a chimychiaid (lobsters.)**

Mae gan siarcod rhesi o ddannedd sydd yn symud ymlaen pa mae eu hangen. Mae gan siarcod mawr gwyn tua 300 o ddannedd minïog, trionglog ac mae ganddynt waed cynnes.

## Beth sy'n arbennig am siarcod?

Mae gan siarcod synhwyrau arbennig. Yn wahanol i bobl dynol mae siarcod ond yn defnyddio eu ffroenau ar gyfer arogl ac nid anadlu. Maent yn gallu arogl un diferyn o waed o 400m i ffwrdd. Mae siarcod hefyd yn gallu clywed yn dda achos maent yn gallu clywed pysgod yn symud o 500m i ffwrdd. Maent yn gallu nofio i fyny at gyflymder o 18 milltir yr awr. Mae rhai siarcod yn dodwy wyau ar waelod y mor a rhai yn rhoi genedigaeth i **genawon (pups)**. Ar ôl cael eu geni mae cenawon yn gallu edrych ar ol ei hunain yn syth. Maent fel arfer yn gorfod nofio i ffwrdd o'r fam yn gyflym rhag ofn ei bod yn trio bwyta nhw. Mae rhai siarcod yn gorfod nofio trwy'r amser er mwyn cael ocsigen. Os oeddent yn stopio mi fyddant yn marw.



## Y Draenog



Bron  
Yna

Mae draenogod i'w gweld ym mhob rhan o Brydain. Maent yn byw o fewn dinasoedd a threfi ac yn y wlad. Nid ydynt yn byw ar fynyddoedd achos nid oes llawer o fwyd iddynt yna na llefydd iddynt **nythu (nest)**.

Mae draenogod yn anifeiliaid bach pigog. Mae'r pigau ar oedolion yn mesur tua 25 mm. Mae'r pigau ar hyd cefn ac ochr y draenog ond nid ar eu gwynebau neu eu coesau. Fel arfer mae ganddynt rhwng 5,000 a 7,000 pigyn.

### A oeddech yn gwybod...?

Er mwyn ceisio annog draenog i ymweld a'ch gardd gallwch roi bwyd ci neu bwyd cath allan yn yr ardd iddynt. Mae draenogod yn hoffi bwyta cig.



### Beth mae draenogod yn bwyta?

Mae draenogod yn aml yn cael eu galw'n ffrind i'r garddwyr oherwydd maent yn bwyta **gwllithod (slugs)** a **chwilod (beetles)**. Mae gwllithod yn niweidio planhigion felly mae garddwyr yn hapus i gael gwared ohonynt. Maent hefyd yn bwyta **pryfed genwair (earthworms.)**

Peidiwch a rhoi llaeth i ddraenogod. Mae llaeth yn gallu eu gwneud yn **sâl iawn**. Gallwch roi **dŵr** i ddraenog.

### FFEITHIAU DIDDOROL

Mae draenogod fel arfer yn ymweld **â** llawer o erddi - efallai eich bod yn meddwl eich bod yn gweld yr un draenog ond gall i fyny at 10 draenog bod yn ymweld a'ch gardd.

Pan mae draenog yn teimlo'n ofnus mae'n rollo i fewn i siâp pâl er mwyn amddiffyn ei hunain o **ysglyfaethwyr (predators.)**

Mae draenogod yn **gaeafgysgu (hibernate)** rhwng Tachwedd a mis Mawrth felly byddwch yn ofalus wrth symud pentyrrau o ddail o'ch gardd yn ystod yr amser hynny.

Mae gan draenog gynffon byr iawn.





## Y Teigr



Ar fy  
ffordd

Mamal yw'r teigr. Y teigr yw'r anifail fwyaf yn nheulu'r cathod. Mae gan y rhan fwyaf o deigr (tigers) ffwr oren a streipiau du. Mae y streipiau yn helpu'r teigr i guddio o anifeiliaid arall wrth hela. Mae gan bob teigr marcïau gwahanol ychydig fel olion bysedd (fingerprints) pobl. Mae ganddynt goesau hir er mwyn rhedeg yn gyflym a chrafangau (claws) minïog er mwyn hela.

A oeddech yn gwybod...?

Pan mae cenau (cub) yn 8 wythnos oed mae'n gallu mynd allan i hela gyda'r fam.



### FFEITHIAU DIDDOROL

- o Mae'r teigr yn dod o Asia.
- o Maent yn byw mewn coedwigoedd.
- o Maent yn hoffi byw a hela ar ben ei hunain ac yn crafu coed i ddangos eu cartref.
- o Cig yw bwyd teigr. Maent yn hela yn ystod y nos. Maent yn bwyta reinoseros, carw (deer), moch (pigs), gwartheg (cows) a cheffylau (horses).
- o Yn wahanol i gathod eraill mae teigr yn caru dŵr ac yn hoffi nofio.



Yn anffodus mae y teigr nawr yn anifail prin (endangered animal). Mae hyn oherwydd bod pobl yn hela teigr am eu ffwr. Nid oes llawer ohonynt ar ôl yn byw yn y gwyllt.


### Tasg 3 Cymraeg

#### Welsh Task 3

Gwrandewch ar Mrs Davies yn darllen y stori Mr Abracadabra Jones. Allwch greu clawr llyfr newydd ar gyfer y stori?

*Listen to Mrs Davies reading the story Mr Abracadabra Jones. Can you create a new front cover for the story?*

<https://youtu.be/y6dzYKTcHfE>





# Tasg 1 Mathemateg adre $\times 4$ & $\div 4$ Task 1 Mathematics at home $\times 4$ & $\div 4$

$\times 4$

gan ddyblu a dyblu  
eto  
Double and double  
again

24

40 + 8

48

80 + 16

96

Tasg 1 Mathemateg- adre-  
dyblu a haneru gyda 4  
Task 2- Mathematics- home  
task- multiplying and dividing  
by 4.

Gan ddefyddio'r dull  
deiamwnt a welwch  
yn yr enghreifftiau  
ewch ati i ddyblu gyda  
4 ac haneru gyda 4  
Cofiwch herio eich hun.

By using this  
diamond method  
like we use in school  
have a go at  
multiplying by 4  
and dividing by 4.

$\div 4$

gan haneru a  
haneru eto  
Halve and halve  
again

78

35 + 4

39

15 + 4.5

19.5

Defnyddiwch y dull fel cymorth pan rydych yn ateb y cwestiynau.  
Remember to use the method when answering these questions.

Ar fy  
ffordd

<b>X 4</b>	<b>Ateb</b>	<b>÷4</b>	<b>Ateb</b>
14		48	
22		44	
28		64	
64		100	
42		128	
35		148	
112		164	
124		248	
144		484	
222		668	
221		368	
345		1248	

Defnyddiwch y dull fel cymorth pan ryddych yn ateb y cwestiynau.  
Remember to use the method when answering these questions.

Bron yna

<b>X 4</b>	<b>Ateb</b>	<b>÷4</b>	<b>Ateb</b>
43		128	
54		464	
144		208	
246		164	
152		96	
182		312	
143		596	
154		752	
244.4		264.8	
286.3		376.6	
189.7		249.4	
276.8		1467.8	

Defnyddiwch y dull fel cymorth pan ryddych yn ateb y cwestiynau.  
Remember to use the method when answering these questions.

Barod  
am her

<b>X 4</b>	<b>Ateb</b>	<b>÷4</b>	<b>Ateb</b>
454		2578	
789		6985	
1948		7966	
2948		156.4	
34.4		778.8	
56.3		208.8	
78.2		164.4	
134.6		396.4	
234.5		312.24	
12.25		592.88	
34.24		352.64	
67.78		749.36	

Tasg 2 - Mathemateg - adre - lluosï a rhannu gyda 10 a 100  
Task 2 - Mathematics - at home Multiplying by 10 and 100

Gwylwch y fideo i adolygu lluosï a rhannu gyda 10 a 100  
Watch the video to revise multiplying and dividing with 10 and 100

<https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zfvt382/articles/zrdmy9q>

Cannoedd	Degau	Unedau
	2	1
2	1	0

- Lluosï gydag 1, 10, neu 100
- Pan wyt ti'n lluosï gydag 1 mae'r ateb yn aros yr un fath.  $21 \times 1 = 21$
- Pan wyt ti'n lluosï gyda 10, symuda bob digid un lle i'r chwith, gan roi sero yn y lle gwag.  $21 \times 10 = 210$
- Pan wyt ti'n lluosï gyda 100, symuda bob digid ddau le i'r chwith, gan roi sero yn y llefydd gwag.  $21 \times 100 = 2100$

### Multiplying by 1, 10, or 100

- When you multiply by 1 the answer stays the same.  $21 \times 1 = 21$
- When you multiply by 10, move all the digits one place to the left, putting a zero in the empty space.  $21 \times 10 = 210$
- When you multiply by 100, move all the digits two places to the left, putting a zero in the empty spaces.  $21 \times 100 = 2100$

Cannoedd	Degau	Unedau
2	1	0
	2	1

- Rhannu gyda 1, 10 or 100
- Pan wyt ti'n rhannu gydag 1 mae'r ateb yn aros yr un fath.  $21 \div 1 = 21$
- Pan wyt ti'n rhannu gyda 10, symuda bob digid un lle i'r dde.  $210 \div 10 = 21$
- Pan wyt ti'n rhannu gyda 100, symuda bob digid ddau le i'r dde.  $2100 \div 100 = 21$

### Dividing by 1, 10 or 100

- When you divide by 1 the answer stays the same.  $21 \div 1 = 21$
- When you divide by 10, move all the digits one place to the right.  $210 \div 10 = 21$
- When you divide by 100, move all the digits two places to the right.  $2100 \div 100 = 21$




Rhif	x10
22	
37	
87	
124	
354	
145	
6786	
3457	
12765	
370	
990	
12.1	
25.6	
445.7	
35.56	

Rhif	x100
34	
65	
78	
98	
143	
245	
675	
4678	
340	
870	
25674	
34.7	
87.6	
123.6	
64.87	

Rhif	÷10
220	
760	
550	
340	
3470	
5670	
3450	
2760	
45600	
34700	
12600	
124	
245	
678	
963	

Rhif	÷100
56700	
23500	
124500	
87500	
125	
357	

Rhif	÷100
6700	
3400	
1200	
8700	
34600	
56700	




Rhif	x10
240	
460	
35	
2.3	
6.7	
8.89	
0.6	
0.76	
0.05	
1.05	
0.078	
2.12	
0.0067	
761.01	
9.910	

Rhif	x100
23	
789	
4678	
2.2	
56	
78.78	
123.56	
0.5	
0.45	
0.02	
0.008	
23.45	
0.789	
5.783	
0.0021	

Rhif	+10
36700	
78900	
45600	
34567	
34512	
87654	
0.5	
2340	
367	
2.34	
7.56	
62.22	
0.056	
0.089	
0.032	

Rhif	÷100
87900	
56700	
3450	
34567	
36532	
78987	

Rhif	÷100
354	
350	
35	
26	
75	
67.8	



Rhif	x	Ateb
34.67	X 10	
0.89	X 10	
	x10	70
	x100	60
	x10	0.8
	x100	125
67		6700
34.5		34500
23	x 1000	
567	x 1000	
0.005		0.5
0.002		2
0.01	x 100	
0.0089	x 1000	
52.901	x100	

Rhif	÷	Ateb
76.89	÷ 10	
45.09	÷10	
45.970	÷10	
876	÷100	
96.07	÷100	
89768	÷100	
87		0.87
87.65		0.8765
87654	÷1000	
87.90	÷100	
2		0.002
1.11	÷1000	
0.0456	÷100	

**Tasg Mathemateg 3 cwis lluosï a rhannu gyda 10 a 100 / Task Mathematics 3 Quiz Multiplying and dividing by 10 and 100**

O dan assignments [Under assignments](#)

Cwis lluosï a rhannu gyda 10 a 100 – **Ar Fy Ffordd**

Cwis lluosï a rhannu gyda 10 a 100- **Bron Yna**

Cwis rhifau coll lluosï a rhannu gyda 10 a 100 – **Barod Am Her**

**1** <https://hwb.gov.wales/>

**2**  **Service announcement**

 **Menu**

**Log in**

**Sign up**

**3**

**Hwb**

Sign in

username@hwbcymru.net

[Can't access your account?](#)

[Sign-in options](#)

**Next**

Rhaid mewngofnodi gan ddefnyddio 'enwdefnyddiwr@hwbcymru.net' | You must login using 'username@hwbcymru.net'

[@hwbcymru.net](mailto:@hwbcymru.net)

**Cyfrinair/ Password**

**4**



**Office 365**



**Teams**



**General**

[Posts](#)

[Files](#)

[Class Notebook](#)

**Assignments**

[Grades](#)

[Gweithgaredd](#)

**5**



**Blwyddyn 6 YGC**

**6**

Lluosï a rhannu gyda 10 a 100 Barod am Her  
Due 31 July 2020 09:00

Lluosï a rhannu gyda 10 a 100 Bron Yna  
Due 31 July 2020 09:00

Lluosï a rhannu gyda 10 - Ar fy ffordd  
Due 31 July 2020 09:00

## TASQ ARLOESI 1 - Bioamrywiaeth o fewn Cynefin (Adre)

### INNOVATION TASK 1 - Biodiversity within a habitat (At home)

Bioamrywiaeth yw y planhigion ac anifeiliaid amrywiol y y byd neu o fewn cynefin penodol. Mae popeth byw wedi cysylltu gyda'i gilydd. Mae sicrhau llawer o fioamrywiaeth yn bwyisg ar gyfer yr amgylchedd a'r byd yr ydym yn byw ynddi.



Biodiversity refers to the various plants and animals in the world and within a specific habitat. Every living thing is interconnected. A high amount of these plants and animals is seen as important for the environment and the world in which we live.

## **Eich Tasg / Your Task**



Dewiswch un o'r cynefinoedd isod ac wedyn ymchwiliwch i'r bioamrywiaeth o fewn y cynefin (planhigion, adar, pryfed, coed) hynny. Gwylwch y fideo ar fioamrywiaeth am fwy o wybodaeth.

Choose one of the habitats below and then research into the biodiversity (plants, flowers, trees, insects, birds) within the habitat.

Watch the following video about biodiversity for further information.

[https://www.youtube.com/watch?v=b6ua\\_zWDH6U](https://www.youtube.com/watch?v=b6ua_zWDH6U)

Anialwch / Desert

Afon / River

Coedwig law trofannol / Tropical Rainforest

Traeth / Beach

Morol / Marine

TASG ARLOESI 1 – Bioamrywiaeth o fewn cynefin (Adre)

INNOVATION TASK 1 – Biodiversity within an environment (At home)

Rydwi wedi dewis i ymchwilio i fewn i'r cynefin \_\_\_\_\_

I have chosen to research into the habitat of \_\_\_\_\_



<p><b>Beth yw'r bioamrywiaeth o fewn y cyefin (pa bethau byw sydd yn byw yna – anifeiliaid, adar, planhigion, pryfed a.y.y.b? ) What is the biodiversity within the habitat?</b></p>	<p><b>Beth allwch wneud i amddiffyn y bioamrywiaeth o fewn y cynefin? What can you do to protect the biodiversity within the habitat?</b></p>

## TASG ARLOESI 2 - Bio dome Coedwig (Adre)

### INNOVATION TASK 2 - Forest Bio dome (At home)

#### PROSIECT EDEN/ EDEN PROJECT

Mae'r prosiect Eden yn cynnwys biomau. Yn y biomau hynny maent wedi creu ecosystemau llawn. Mae'r biomau wedi eu dylunio i fod yn union fel cynefin naturiol e.e mae'r un coedwig law yn boeth ac yn wlyb iawn ac yn cynnwys cannoedd o blanhigion, coed, adar a phryfed sy'n naturiol i'r cynefin. Nid oes mamaliad yn byw yna.

The Eden project includes biomes. These biomes include whole ecosystems. They are designed to be exactly like the natural habitat i.e. the rainforest one is very wet and humid and includes hundreds of plants, trees, birds and insects who are native to the habitat. There aren't any mammals in these biomes.



#### Eich Tasg / Your Task

Gwylwch y clip i-movie. Dyluniwch biome yn seiliedig ar natur cynefin lleol (afon, coedwig, pwll dŵr).

Darluniwch luniau o'r planhigion, coed, adar a phryfed a fyddai o fewn eich biome. Nodwch wybodaeth am y bywyd gwylt ac am y cynefin sydd angen arnynt.

Watch the i-movie clip. Design your own biome based on a local habitat (river, forest, pond). Sketch an image of your biome - label the wildlife (plants, trees, birds and insects) and the features of the habitat.


#### GERDDI BOTANEG CYMRU / WELSH BOTANICAL GARDENS

Mae gerddi botaneg Cymru wrth ymyl Caerfyrddin yn cynnwys 8000 o blanhigion gwahanol o gynfinoedd amrywiol. Mae rhai o blanhigion fwyaf prin y byd yn cael eu gwarchod yna.

The Welsh National Botanical Gardens near Carmarthen contain 8000 different plants from various habitats. Some of the world's most endangered plants are protected there.



TASG ARLOESI 2 - Biome (Adre)  
INNOVATION TASK 2 - Biome (At home)





## TASG ARLOESI 3 - Arsylwi ar flodau (Adre)

### INNOVATION TASK 3 - Studying Flowers (At home)

Mae nifer o artistiaid yn defnyddio blodau o fewn eu gwaith Celf. Dyma enghreifftiau o waith rai artistiaid enwog. A number of famous artists draw flowers. Here are some examples of some famous artists.

#### Georgia O'Keeffe



Artist Americanaidd sy'n enwog am wneud lluniau agos o flodau. An American artist who is know for her paintings of enlarged flowers.



#### Claude Monet



Artist enwog o Ffrainc. Un o'r argraffiadwyr. Famous French artist. One of the impressionist painters.



#### Gwen John



Artist Cymraeg a oedd yn darlunio blodau. A Welsh artist who used a lot of flowers in her work.



## TASG ARLOESI 3 - Arsyllwí ar flodau (Adre) INNOVATION TASK 3 - Studying Flowers (At home)

Allwch astudio lluniau o flodau ar lein a mewn llyfrau? Neu astudiwch flodau go iawn yn eich gardd neu yn eich ardal leol. Gan ddefnyddio steil un o'r artistiaid enwog creuwch ddarlun o'r blodau yr ydych wedi astudio. Gallwch ddefnyddio pensil, paent neu unrhyw gyfrwng yr hoffech. Can you study some pictures of flowers in books or online? Or study some real flowers in your garden or whilst you are out and about. Using the style of one of the famous artists create a picture of flowers you have studied. You can sketch using pencil, use paint or any medium you would like.







## Tasg 1 Lles (Yn yr Ysgol)

### Wellbeing Task 1 (In school)

A fedrwch chi greu cardiau fflach sy'n dangos, cwtch, neges a pump uchel? Gallech ddangos y cardiau i'ch ffrindiau ar yr iard!

Can you make flash cards that show hugs, messages and a high fives? You can show these to your friends on the yard.






## Tasg 2 Lles (yn yr ysgol)

### Wellbeing Task 2 (in school)



Trafodwch a nodwch eich sylwadau isod, gan dynnu llun o'ch hunan yn y canol.


Discuss the above questions and note your opinions. Draw a picture of yourself in the centre.

Beth weithiodd yn dda i chi yn y tŷ? What worked well for you at home?



Beth oeddech chi'n gweld yn heriol yn ystod yr amser yma? What didn't work well during the time you were at home?





Yn gyntaf, gwylwch y fideo yma: <https://www.youtube.com/watch?v=kgCNGvL0g1g>.

Wythnos yma rydyn ni'n mynd i edrych ar stori Keiran (5:55):




Dechreuodd Kieran chwarae gemau gyda'i ffrindiau pan oedd yn saith mlwydd oed ac yn y blynyddoedd a ddilynodd daeth yn gaeth (*addicted*).

Byddai'n aros i fyny trwy'r nos i chwarae. Rhoddodd y gorau i olchi a dechrau cwmpo i gysgu yn yr ysgol.



Erbyn 15 mlwydd oed roedd yn rhaid iddo adael yr ysgol.



Sylweddolodd bryd hynny fod ganddo broblem a gofynnodd am help.



Mae yna lawer o bethau da am fod ar-lein a chwarae gemau, ond mae bod o flaen sgrin ac yn y byd rhithiol (*virtual*) am amser rhy hir yn cael effeithiau negyddol arnoch chi. Mae'n bwysig eich bod chi'n gallu gweld yr arwyddion a dod o hyd i gydbwysedd.

Mae Lles Digidol yn bwysig iawn er mwyn i chi ddal i gael hwyl ar-lein wrth gadw'n ddiogel a thyfu'n oedolyn iach.



Mae 2 weithgaredd yr wythnos hon i chi eu cwblhau a hefyd tasg her i'r rhai ohonoch sydd am wthio eich hun;

**Sylwi ar yr arwyddion**




**Dod o hyd i falans**



**Tasg Her**



Am fwy o wybodaeth a help i ddod o hyd i gydbwysedd iach yn eich bywyd, edrychwch ar:  
Childline <https://www.childnet.com/teachers-and-professionals/for-working-with-young-people/hot-topics/screen-time-healthy-balance> ac Internet Matters  
: <https://www.internetmatters.org/resources/screen-time-tips-to-support-7-11-year-olds/>




Firstly, watch this Newsround video: <https://www.youtube.com/watch?v=kgCNGvL0g1g>.

This week we're going to be looking at Keiran's story (5:55):



Kieran started playing games with his friends when he was seven years old and in the years that followed became addicted.

He would stay up all night to play, he stopped washing and started falling asleep in school.



He would stay up all night to play, he stopped washing and started falling asleep in school. By 15 years old he had to drop out of school.

He soon realised then that he had a problem and asked for help.



There are many benefits to being online and playing games but being in front of a screen and in the "virtual world" for too long will have negative effects on you. It's important that you can spot the signs and find a balance.

Digital Wellbeing is really important in order for you to still have fun online while keeping safe and growing into a healthy adult..



There are 2 main parts to this week's activity for you to complete plus a challenge task for those who want to push themselves;

**Spotting the Signs**




**Finding a balance**



**Challenge Task**



For more information and help on finding a healthy balance in your life have a look at Childline : <https://www.childnet.com/teachers-and-professionals/for-working-with-young-people/hot-topics/screen-time-healthy-balance> and Internet Matters : <https://www.internetmatters.org/resources/screen-time-tips-to-support-7-11-year-olds/>



**Sylwi ar yr arwyddion**



Arwyddion o'r byd o'ch cwmpas / Signs from the world around you

Arwyddion o'ch corff eich hun / Signs from your own body

*Beth yw'r arwyddion eich bod wedi bod yn edrych ar sgrin neu wedi bod yn y byd rhithiol yn rhy hir?*

**Tasg 1**

A allwch chi liwio'r enghreifftiau isod i ddangos os mae'r arwydd yn dod o'r **amgylchedd o'ch cwmpas (lliwioch mewn oren)** neu o'ch **corff eich hun (lliwioch mewn glas)**? Mae enghraifft wedi'i wneud i chi. / Can you colour the examples below to show if the sign comes from the **environment around you (colour in orange)** or from **your own body (colour in blue)**?


Pen tost	Mae'n anodd mynd i gysgu	Mae'r ddyfais yn teimlo'n boeth iawn	Teimlo'n orioog (moody) neu'n flin
Meddwl yn gyson (constantly) am fod ar-lein	Mae aelodau'r teulu'n sôn am ba mor hir rydych chi wedi bod ar-lein	Golwg niwlog (blurry vision)	Mae'r ddyfais yn rhedeg allan o fatri
Yn teimlo'n llwglyd (hungry)	Edrych ar y cloc a sylweddoli bod llawer o amser wedi mynd heibio	Neges ar y sgrin yn gofyn a ydych chi yno o hyd	Poen gwddf

**Tasg 2**



A allwch chi feddwl am fwy o enghreifftiau i lenwi'r tabl? / Can you think of more examples to fill the table?

Arwyddion o'r byd o'ch cwmpas	Arwyddion o'ch corff eich hun
Mae Mam a Dad yn gwneud i mi roi'r dabled i ffwrdd	Mae fy llygaid yn brifo
Rwy'n sylwi ei bod wedi tywyllu y tu allan	Dwi angen diod



**Dod o hyd i falans**









**Tasg 1**

Tynnwch llinellau i gysylltu'r arwyddion â datrysiad / Draw lines to connect the signs with a solution


Yn teimlo'n llwglyd	Os ydych chi wedi bod yn eistedd yn edrych yn rhy hir, rhowch gynnig ar rai ymarferion ysgafn. Chwarae gêm fel pêl-droed neu dag sy'n cael eich corff i symud.
Poen gwddf	Cymerwch seibiant a dewch o hyd i rywbeth i'w fwyta! Efallai y bydd angen byrbryd arnoch chi ond gall diod o ddŵr hefyd helpu i roi'r egni sydd ei angen ar eich corff.
Batri fflat	Gall bod ar-lein effeithio ar eich hwyliau felly rhowch y ddyfais i lawr a dewch o hyd i rywbeth i'ch codi chi: dal i fyny gyda ffrindiau neu ymlacio gyda'ch teulu.
Pen tost	Peidiwch â phlygio i mewn a dal i ddefnyddio'r ddyfais. Defnyddiwch hwn fel esgus i'w roi i un ochr a gwneud rhywbeth arall yn lle. Beth am fynd allan am ychydig?
Teimlo'n oriog (moody)	Mae hyn yn arwydd nad ydych chi wedi bod yn yfed digon, felly ewch i nôl diod o ddŵr ar unwaith. Mae hefyd yn dda gwneud rhywbeth sy'n rhoi seibiant i'ch llygaid.

**Tasg 2**

A allwch chi dynnu llun a fydd yn cydbwysu'r dasg ar-lein â thasg all-lein i helpu i gadw'r graddfeydd yn gytbwys? / Can you draw a picture that will balance the online task with an offline task to help keep the scales balanced?

Tasg arlein	Tasg all-lein (offline)	Tasg arlein	Tasg all-lein (offline)
			
			





**Tasg Her**



**Tasg**

*Cyfaill Cyngchori yw rhywun sy'n rhoi cyngor i bobl am eu problemau.  
An Agony Aunt is someone who gives advice to people about their problems.*

Trowch mewn i Gyfaill Cyngchori trwy ysgrifennu ymateb i'r llythyrau hyn sy'n gofyn am gyngor ynghylch treulio gormod o amser ar-lein. Allwch chi helpu pob person i gael cydbwysedd iach? / Become an Agony Aunt by writing a response to these letters that are asking for advice about spending too much time online. Can you help each person gain a healthy balance?

Annwyl Cyfaill Cyngchori,

Dwi wrth fy modd yn chwarae ar-lein ond weithiau dwi'n cael pen tost gwael iawn. Rwy'n meddwl am chwarae gemau arlein trwy'r amser ac weithiau rydw i hyd yn oed yn anghofio bwyta. Beth ddylwn i ei wneud?

**Llew o Gasnewydd**

Annwyl Llew, \_\_\_\_\_

Oddi wrth, \_\_\_\_\_

**Cyfaill Cyngchori**